# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

**RHAN 4**

GWAREDIADAU TRETHADWY A WNEIR MEWN LLEOEDD HEBLAW SAFLEOEDD TIRLENWI AWDURDODEDIG

**PENNOD 1**

Y DRETH SYDD I'W CHODI AR WAREDIADAU TRETHADWY

## 46 Cyfrifo'r dreth sydd i'w chodi ar warediad trethadwy

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i warediad trethadwy deunydd a wneir yn rhywle nad yw'n safle tirlenwi awdurdodedig, nac yn rhan o safle o'r fath.

(2) Mae swm y dreth sydd i'w godi ar y gwarediad i'w gyfrifo drwy luosi pwysau trethadwy'r deunydd mewn tunelli â'r gyfradd ar gyfer gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi.

(3) Pwysau trethadwy'r deunydd yw pwysau'r deunydd fel y'i pennir gan ACC gan ddefnyddio unrhyw ddull y mae ACC o'r farn ei fod yn briodol.

(4) Y gyfradd ar gyfer gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi yw'r gyfradd y dunnell a ragnodir at ddibenion is-adran (2) mewn rheoliadau.

(5) Caiff rheoliadau o dan is-adran (4) ragnodi cyfraddau gwahanol ar gyfer disgrifiadau gwahanol o ddeunydd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 46 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 46(1)-(3), (5) mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 46. (See end of Document for details)*

**I3** A. 46(4) mewn grym ar 18.10.2017 at ddibenion penodedig gan O.S. 2017/955, **ergl. 2(e)**

**I4** A. 46(4) mewn grym ar 1.4.2018 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 46.